Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG49674**

# Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Larymau Carbon Monocsid

Ebrill 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 Llywodraeth Cymru,
WG49674, ISBN Digidol 978-1-83577-927-9

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg ........ 4
3. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymateb y Llywodraeth ........ 7
   Mannau Integredig ........ 8
   Ystafelloedd gwely ........ 9
   Cwcers â Ffliw ........ 10
4. Ystyriaethau Eraill ........ 13
   Math o Larwm ........ 13
   Lleoliad Larwm ........ 14
5. Amcangyfrifon o'r costau ........ 17
   Amcangyfrifon o'r Costau ac Asesiad o'r Effaith ........ 17
   Newidiadau cysylltiedig ........ 19
   Effeithiau ar y Gymraeg ........ 20
6. Y Camau Nesaf ........ 23

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar osod larymau carbon monocsid ym mhob annedd breswyl.

1.2 Cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid diwygio'r canllawiau presennol er mwyn cynnwys gosod larwm carbon monocsid ar gyfer ***offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio unrhyw fath o danwydd*** ym mhob annedd breswyl, gan gynnwys anheddau preifat. Bydd y polisi yn golygu y byddai pob un o'r mathau canlynol o danwydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau: olew, nwy (gan gynnwys LPG) a thanwydd solet ym mhob annedd breswyl.

1.3 Mae'r safbwyntiau a nodir yn yr ymateb hwn gan y llywodraeth yn crynhoi'r sylwadau perthnasol a gafwyd. Nid yw pob un o'r sylwadau a gafwyd wedi'u cynnwys am resymau sy'n ymwneud â pherthnasedd i'r cwestiynau a ofynnwyd neu resymau tebyg. Y sylwadau mewn crynodebau yw'r rhai a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu sylwadau Llywodraeth Cymru.

1.4 Mae'r Rheoliadau Adeiladu'n rheoli rhai mathau penodol o waith adeiladu, sef codi ac estyn adeiladau a darparu neu estyn gwasanaethau neu ffitiadau penodol yn bennaf, er mwyn sicrhau bod adeiladau'n cyrraedd safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, cyfleustra a chynaliadwyedd.

1.5 Y sawl sy'n gwneud y gwaith sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i sicrhau. Rôl corff rheoli adeiladu, naill ai'r awdurdodau lleol neu Arolygydd Cymeradwy yn y sector preifat, yw gweithredu fel corff archwilio trydydd parti annibynnol er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel opsiwn amgen i broses archwilio trydydd parti gan gorff rheoli adeiladu, gall gosodwyr sydd wedi'u cofrestru fel aelod o gynllun hunanardystio personau cymwys ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i wneud hynny, hunanardystio bod rhai mathau o waith yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

1.6 Mae'r Rheoliadau Adeiladu'n dylanwadu ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau buddiannau sylweddol i gymdeithas. Gall fod costau i fusnesau ac unigolion yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddio hefyd. Mae natur "swyddogaethol" y Rheoliadau Adeiladu, drwy ddarparu bod rheoliadau yn pennu'r gofynion cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut mae'n rhaid ei gyflawni, yn ceisio cynnig hyblygrwydd a sicrhau nad yw arloesi yn cael ei rwystro. Wedyn, mae canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy'n ategu'r Rheoliadau yn nodi rhai o'r ffyrdd y gellir bodloni'r gofynion hyn er nad oes rhaid eu dilyn os gellir dangos bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i sicrhau mewn ffordd wahanol. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi eglurder i gyrff rheoli adeiladu a'r diwydiant fel ei gilydd.

## 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1 Cafwyd **41** o ymatebion i'r ymgynghoriad i gyd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ddewis un o 12 o fathau o sefydliadau a oedd wedi'u nodi ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'arall' lle y gallent ychwanegu eu hateb eu hunain) i ddisgrifio eu sefydliad. Dengys Tabl 1 isod nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector. Caiff atebion yr ymatebwyr i'r 10 cwestiwn a ofynnwyd eu crynhoi yn Nhabl 2.

**Tabl 1**

| Math o Sefydliad: Dewiswch un o'r canlynol: | Nifer yr Ymatebwyr | % |
|---|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | | |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 3 | 7.3 |
| Awdurdod Lleol | 6 | 14.6 |
| Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | | |
| Arolygydd Adeiladu Cymeradwy | 3 | 7.3 |
| Arolygydd Adeiladu Awdurdod Lleol | | |
| Pensaer | | |
| Gwneuthurwr/y gadwyn gyflenwi | | |
| Rheolwr Eiddo/Landlord | 6 | 14.6 |
| Gweithiwr adeiladu proffesiynol | | |
| Corff proffesiynol | | |
| Deiliad Adeilad/Preswylydd | 2 | 5 |
| Parti arall sydd â diddordeb | 21 | 51 |

**Tabl 2**

| Cwestiwn | Ydw% | Nac ydw% | Ansicr % | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1. Ydych chi'n cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r canllawiau statudol (Canllawiau ar y rheoliadau adeiladu: Rhan J (Dyfeisiau sy'n cynhyrchu gwres) \| LLYW.CYMRU) sy'n cefnogi Rhan J o'r Rheoliadau Adeiladu, i'w gwneud yn ofynnol gosod larymau carbon monocsid wrth osod offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio unrhyw fath o danwydd? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth. | 85 | 10 | 5 | 0 |
| 2. Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio **'mannau cysylltiedig'** fel rhan o'r cynnig uchod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth. | 36 | 37 | 14 | 13 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. Ydych chi'n cytuno, **os yw'r ffliw yn mynd drwy fannau fel ystafelloedd gwely**, y dylid eu heithrio fel rhan o'r cynnig uchod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth. | 37 | 51 | 4.7 | 7.3 |
| 4. Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys **cwcers â ffliw** fel rhan o'r cynnig uchod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth. | 74 | 10 | 8 | 8 |
| 5. Ydych chi'n meddwl bod angen diweddaru'r arweiniad yn Nogfen Gymeradwy J (a amlinellir uchod) ar **ba fath o larwm carbon monocsid** y dylid ei osod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth. | 61 | 12 | 15 | 12 |
| 6. Ydych chi'n meddwl bod angen diweddaru'r arweiniad yn Nogfen Gymeradwy J ar **ble i osod larymau carbon monocsid**? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth. | 63 | 15 | 15 | 7 |
| 7. Ydych chi'n cytuno gyda'r **amcangyfrifon o'r costau a'r Asesiad o'r Effaith gyffredinol**? Os nad ydych, esboniwch beth fyddai cost briodol yn eich barn chi, a rhowch dystiolaeth i ddangos pam. | 34 | 12 | 36 | 17 |
| 8. Defnyddiwch y cwestiwn hwn i roi **unrhyw sylwadau** sydd gennych am y cynnig. | - | - | - | - |
| 9. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? | - | - | - | - |
| 10. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r **Gymraeg,** ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai | - | - | - | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | | | |

2.2 Ymdrin ag ymatebion

Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod. Fodd bynnag, os na ddefnyddiodd ymatebwyr y ffurflen, mae sylwadau wedi'u priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol. Hefyd, cafodd rhai cwestiynau eu dylunio i arwain at dri ateb posibl. ydw, nac ydw, ansicr. Os nad yw ymatebwyr wedi ateb gan ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond eu bod wedi nodi safbwynt clir yn eu hateb, mae'r ymateb hwnnw wedi'i bennu iddynt yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, os defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd 'Rwyf o blaid y cynnig' nodwyd bod ei ymateb yn un cadarnhaol ('ydw'). Os nad oedd yr ymateb yn glir, cafodd yr atebion eu nodi fel 'heb ymateb' yn y dadansoddiad ystadegol gyda'r ymatebion yn cael eu cynnwys yn y crynodeb o sylwadau. Nid yw pob sylw wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon yn dibynnu ar ba mor berthnasol ydyw neu lle mae sawl ymatebydd wedi gwneud sylwadau tebyg, nodir sylw cyffredinol.

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymateb y Llywodraeth

**Cwestiwn 1. – Cynnig ar gyfer offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio unrhyw fath o danwydd**

**Ydych chi'n cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r canllawiau statudol ([Canllawiau ar y rheoliadau adeiladu: Rhan J (Dyfeisiau sy'n cynhyrchu gwres) | LLYW.CYMRU]) sy'n cefnogi Rhan J o'r Rheoliadau Adeiladu, i'w gwneud yn ofynnol gosod larymau carbon monocsid wrth osod offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio unrhyw fath o danwydd?**

**Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth**.

**Crynodeb**

3.1 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (85%), yn cytuno i gefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r canllawiau statudol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i larymau carbon monocsid gael eu gosod wrth osod offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio **unrhyw fath** o danwydd.

3.2 Gwelwyd cydnabyddiaeth helaeth y bydd y diwygiadau arfaethedig yn gwella iechyd a diogelwch pobl mewn anheddau preswyl.

3.3 Ymhlith y sylwadau i'w hystyried roedd y cais i fod yn gyson â deddfwriaeth debyg ynglŷn â synwyryddion carbon monocsid, gan gynnwys y *Rheoliadau Larymau Mwg a Larymau Carbon Monocsid* a *Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021: Safonau ar gyfer creu cartrefi a mannau prydferth*, er mwyn helpu i symleiddio'r broses o'u cymhwyso ac osgoi gwrthdaro deddfwriaethol. Ymestynnwyd y cais hwn i ystyried gofynion trawsffiniol er mwyn osgoi peri dryswch i gyrff sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr.

3.4 Lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch gorfodi'r rheoliadau, yn enwedig mewn eiddo preifat a'r ffaith y gallai arwain at bobl sy'n agored i niwed yn cael eu herlyn. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r canllawiau fod yn rhai cynghorol yn unig ac y dylid hysbysebu'r manteision yn briodol.

**Ymateb y Llywodraeth (cwestiwn 1)**

3.5 Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos bod mwyafrif helaeth iawn o blaid cynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r canllawiau statudol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i larymau carbon monocsid gael eu gosod wrth osod offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio **unrhyw fath** o danwydd.

3.6 Er bod nifer y marwolaethau a gofnodir yn gymharol fach gellir atal y marwolaethau am gost gymharol isel ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rheswm dilys dros gyflwyno gofynion statudol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod yn helaeth y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn gwella iechyd a diogelwch pobl mewn anheddau preswyl.

3.7 Er i sylwadau gael eu gwneud y dylai'r cynigion fod yn gyson â Lloegr, a oedd yn cael ei ystyried yn fudd i ddiwydiant, arweiniodd yr adborth o'r ymgynghoriad yng Nghymru at ystyriaeth bellach i fanteision gwneud synwyryddion a larymau carbon monocsid yn ofynnol mewn meysydd ychwanegol, fel y nodir yn nes ymlaen yn yr ymateb hwn gan y llywodraeth.

3.8 Mewn perthynas â gorfodi o fewn eiddo preifat, nid yw'r gofynion arfaethedig yn ôl-weithredol, a dim ond pan fydd gwaith adeiladu cymwys (e.e. gosod boeler nwy newydd) yn cael ei wneud y byddant yn berthnasol. Cyrff rheoli adeiladu sy'n gyfrifol am ddehongli'r canllawiau a gorfodi gofynion y Rheoliadau Adeiladu. Fodd bynnag, yn ymarferol, pobl sydd wedi'u cofrestru â chynllun personau cymwys sy'n gosod y rhan fwyaf o offer llosgi, gan hunanardystio bod y gwaith gosod yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau adeiladu. Mae'r cynllun personau cymwys wedi bod yn destun adolygiad helaeth parhaus a dyma'r prif gyfrwng ar gyfer gwella ansawdd a sicrhau darpariaeth gyson i gwsmeriaid. Mae angen i osodwyr ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol o ran cymhwysedd technegol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am awdurdodi cynlluniau personau cymwys yn unol â Llywodraeth y DU er mwyn gwneud yn siŵr bod y safonau yn gyson a phennu'r rheolau y mae'n rhaid i weithredwyr cynlluniau eu dilyn a'r amodau y dylent eu bodloni.

**Cwestiwn 2. – eithrio 'mannau cysylltiedig'**

## Mannau Integredig

**Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio 'mannau cysylltiedig' fel rhan o'r cynnig uchod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth.**

**Crynodeb**

3.9 Roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r gofyniad arfaethedig i eithrio mannau cysylltiedig yn gyfartal, fwy neu lai, tra roedd 14% o'r ymatebwyr yn ansicr.

3.10 Mae'r canlynol yn groestoriad cyffredinol o sylwadau allweddol a gafwyd gan yr ymatebwyr.

3.11 O ran mannau cysylltiedig, nododd yr ymatebwyr nad yw pob man cysylltiedig 'wedi'i awyru'n dda'. Er bod rhai ardaloedd yn fannau na fydd pobl ynddynt yn aml, dywedodd yr ymatebwyr y gall CO ollwng i mewn i'r ardaloedd hyn.

3.12 Awgrymwyd y gall fod gan anheddau newydd ac anheddau presennol a gafodd eu hail-doi yn ddiweddar grwyn anadlu yn hytrach na ffelt byrddau nenfwd bitwmen traddodiadol, sy'n golygu nad yw atigau wedi'u hawyru "yn naturiol" i'r un graddau ag yr oedd toeon ar oleddf oer traddodiadol wedi'u hawyru yn y gorffennol.

3.13 Nododd y sylwadau fod mannau cysylltiedig (er enghraifft garejys) weithiau yn cael eu haddasu i'w defnyddio at ddibenion eraill fel ystafelloedd chwarae, ystafell wely, campfa ac ati y gallai fod angen gosod larwm carbon monocsid ynddynt fel rhan o'r newid defnydd â mwy o amlygiad i CO.

3.14 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y defnydd o EN-50292 i bennu lleoliad ac addasrwydd larymau mewn mannau cysylltiedig, gan gynnwys oherwydd tymereddau eithafol a lefelau uchel iawn o lwch.

3.15 Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith bod gan CO, er ei fod yn anweledig ac yn ysgafnach nac aer, y potensial i ledaenu i bob rhan o safle gan wenwyno'r bobl sydd yno yn raddol, gan gynnwys enghreifftiau lle y cafodd meddiannydd fflat ei rybuddio gan ei larwm CO bod carbon monocsid yn dod o fflat cymydog, a dywedodd un arall fod aelod o'r teulu wedi marw ar ôl cael ei wenwyno gan CO tra oedd mewn ystafell ymolchi a oedd yn sownd wrth y gegin lle roedd y boeler wedi'i leoli.

3.16 Roedd corff cenedlaethol o arolygwyr cymeradwy o blaid mesurau sy'n gwella ac yn diogelu iechyd a diogelwch meddianwyr. Nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth a fyddai o blaid eithrio mannau cysylltiedig o'r cynnig.

**Cwestiwn 3. – ac eithrio os yw'r ffliw yn mynd drwy fannau fel ystafelloedd gwely**

## Ystafelloedd gwely

**Ydych chi'n cytuno, os yw'r ffliw yn mynd drwy fannau fel ystafelloedd gwely, y dylid eu heithrio fel rhan o'r cynnig uchod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth.**

**Crynodeb**

3.17 Roedd y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr (51%) yn anghytuno â'r cynnig y dylid eithrio ffliw os yw'n mynd drwy fannau fel ystafell wely. Roedd 37% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.

3.18 O'r rhai a oedd yn anghytuno, mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'u sylwadau:

3.19 Nododd yr ymatebwyr y gall ffliwiau ollwng ac, os cânt eu gosod neu eu cynnal a'u cadw yn wael neu os cânt eu difrodi neu os byddant yn diraddio yn y cyfamser, y dylid eu diogelu â larymau clywadwy.

3.20 Awgrymodd un ymatebydd fod gosod synwyryddion yn strategol yn bwysicach na cheisio eu gosod mewn pob man cysylltiedig.

3.21 Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylid gosod larwm CO mewn ystafelloedd lle mae meddianwyr yn treulio cryn dipyn o amser ac ym mhob ystafell wely oherwydd y posibilrwydd o risgiau cynyddol i feddianwyr.

3.22 Cyfeiriwyd at BS EN 50292 mewn perthynas â'r gofyniad safonol i larymau CO gael eu gosod ym mhob ardal gysgu. Cyfeiriwyd hefyd at yr Alban lle mae dull gweithredu tebyg wedi'i nodi yn safon oddefadwy yr Alban.

3.23 Cyfeiriodd un ymatebydd at yr elfen bwysig o hyfforddi gosodwyr, lle y gosodir dyletswydd gyfreithiol ar beirianwyr cofrestredig i archwilio'r ffliw a chadarnhau ei bod yn effeithiol pryd bynnag y maent yn gwneud gwaith ar offer â ffliw a thynnodd sylw at anawsterau ymarferol cyrraedd ffliwiau wedi'u cuddio, er enghraifft mewn gwagleoedd yn y nenfwd.

3.24 Ar ben hynny, cyfeiriodd un ymatebydd at y Gofrestr Diogelwch Nwy lle yr argymhellir gosod larymau CO ar hyd llwybr y ffliw i gyd, gan hefyd ddyfynnu Adran 5.2.2.1 o BS EN 50292:2013, sy'n dweud "Where a fuel-burning appliance has an extended and/or concealed flue, an apparatus should be installed in each room through which the flue passes". Dylid gosod larymau carbon monocsid i Safon Brydeinig BS EN 50291-1:2018 ym mhob man y mae ffliwiau yn mynd drwyddo.

3.25 Os bwriedir i'r ddarpariaeth fod yn ofyniad statudol, mae un ymatebydd yn awgrymu y dylid pennu synhwyrydd wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad trydan neu, o bosibl, Larwm Gwres a Charbon Monocsid â synhwyrydd deuol hyd yn oed.

**Cwestiwn 4.**

## Cwcers â Ffliw

**Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys cwcers â ffliw fel rhan o'r cynnig uchod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth.**

**Crynodeb**

3.26 Roedd mwyafrif helaeth o blaid (74%) cynnwys cwcers â ffliw fel gofyniad statudol.

3.27 Cyfeiriodd yr ymatebwyr at fanteision sicrhau mwy o ddiogelwch am gost gymharol isel a'r lefel uchel o allyriadau carbon monocsid o gwcers fel enghreifftiau o'r rhesymau dros fod o blaid cynnwys y synwyryddion ar gyfer cwcers â ffliw er bod carbon monocsid yn cael ei echdynnu drwy ffliwiau, gan y gallai gwaith gosod gwael neu fethiannau arwain at lefelau peryglus o garbon monocsid.

3.28 Honnodd un ymatebydd fod gwaith ymchwil gan UKHSA wedi nodi bod cwcers nwy bron deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn ffynhonnell carbon monocsid na boeleri; a bod National Energy Action wedi nodi bod cwcers nwy yn llai tebygol o gael eu gwasanaethu o gymharu â boeleri, sy'n awgrymu y gall cwcers nwy beri'r un risg neu fwy o risg o amlygiad i garbon monocsid, o gymharu â boeleri.

3.29 Cyfeiriodd sylw gan un ymatebydd at farwolaethau a achosir gan gwcers pan na all pobl fforddio gwresogi eu cartrefi ac maent yn troi at ddefnyddio'r pentan nwy neu'r ffwrn i gadw ystafell yn gynnes yn lle system wresogi ddrutach. Ceir rhagor o fanylion drwy ddilyn y ddolen gyfryngol: https://www.mirror.co.uk/news/uk-news/beko-gas-cookers-linked-18-23010957.

3.30 Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ystyried yr holl offer a allai fod yn ffynhonnell CO fel rhan o unrhyw reoliadau wedi'u diweddaru.

3.31 Roedd y cynigion yn ymwneud â chwcers â ffliw, gan eu bod yn cael eu hystyried yn 'waith adeiladu' yn y rheoliadau adeiladu. Fodd bynnag, gwnaeth y rhai a nododd eu bod yn anghytuno y sylwadau canlynol mewn perthynas â chwcers â ffliw:

3.32 Cyfeiriodd yr ymatebydd at y ffaith mai cwcers <u>heb ffliw</u> yw prif gynhyrchwyr carbon monocsid ac felly bod unrhyw garbon monocsid a gaiff ei greu drwy eu defnyddio yn cael ei ryddhau'n uniongyrchol i'r ystafell y maent wedi'u lleoli ynddi. Felly, dylid cynnwys cynnydd yn y risg o gynhyrchu CO mewn gofynion ar gyfer gosod larymau CO yn y dyfodol. Mae a wnelo'r cynigion ag offer llosgi sefydlog â ffliw sy'n defnyddio unrhyw fath o danwydd.

**Ymateb y Llywodraeth (cwestiynau 2 i 4, Mannau Integredig, Ystafelloedd Gwely a Chwcers)**

3.33 Mewn perthynas â chwestiwn 2 (mannau cysylltiedig), roedd yr ymatebion wedi'u rhannu gydag ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn anghytuno â'n cynnig. Ar gyfer cwestiwn 3 (ffliw yn mynd drwy fannau fel ystafelloedd gwely) roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn anghytuno â'n cynigion.

3.34 Am fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno â Chwestiynau 2 a 3, rydym wedi ystyried yr ymatebion ac wedi rhoi sylw pellach i effaith a manteision cynnwys larymau CO mewn 'mannau cysylltiedig' ac 'ystafelloedd gwely'. Yn dilyn hyn, rydym yn cynnig y dylid newid y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad. Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy J er mwyn ei gwneud yn ofynnol i larwm CO gael ei osod mewn unrhyw fan sy'n gysylltiedig â'r annedd megis garej sydd ynghlwm wrth yr annedd (h.y. garejis nad ydynt yn rhai ar wahân). At hynny, bydd yn ofynnol i synhwyrydd CO gael ei osod mewn ystafelloedd risg uchel (e.e., ystafell wely/ystafell fyw) os bydd y ffliw o ddyfais yn mynd drwy'r ystafell honno.

3.35 Bwriedir i'r newid uchod i'r canllawiau ar gyfer ystafelloedd sy'n cynnwys ffliwiau leihau'r risg i feddianwyr, yn enwedig mewn ardaloedd risg uchel y bydd meddianwyr yn cysgu neu'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ynddynt. Er bod rhai mannau cysylltiedig megis garejis yn dal i gael eu hystyried yn fannau sydd wedi'u hawyru'n dda y mae meddianwyr yn llai tebygol o aros ynddynt am gyfnodau hir a lle mae'r risg, felly, yn llai, fel arfer mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu haddasu (heb gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu o bosibl h.y. heb eu hawdurdodi) yn lle byw ac maent yn fwy tebygol o gael drws

rhyng-gysylltiol a allai greu llwybrau i CO fynd i mewn i'r prif leoedd byw. At hynny, gall anheddau newydd a gwaith ôl-osod helaeth ar anheddau presennol arwain at anheddau â hydreiddedd aer isel a allai olygu bod y carbon monocsid yn cael ei wanhau lai.

3.36 Rydym hefyd o'r farn y byddai ei gwneud yn ofynnol gosod larwm CO ym mhob man cysylltiedig lle y caiff dyfais ei gosod (lle mae'r man wedi'i gysylltu â'r annedd) hefyd yn fuddiol o ran cynnig eglurder ymarferol i osodwyr mewn perthynas â'r gofyniad ynghylch pryd y dylid gosod larwm CO.

3.37 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr angen gwirioneddol am larymau carbon monocsid yn debygol o fod yn isel ar gyfer anheddau newydd yn y dyfodol lle y bydd y broses o newid o foeleri nwy tuag at dechnoleg carbon isel amgen ar gyfer systemau gwresogi a dŵr poeth (e.e., pympiau gwres), ac mae atebion dylunio ar gyfer anheddau newydd yn fwy tebygol o osod ffliw allan yn uniongyrchol drwy wal allanol. Felly, credwn mai pan fydd gwaith adeiladu cymwys (e.e. gosod neu amnewid offer llosgi newydd) yn cael ei wneud ar anheddau presennol y byddai'r cynigion uchod yn cael yr effaith fwyaf. Caiff effaith hyn ei adlewyrchu yn yr asesiad effaith terfynol.

3.38 Mewn perthynas â chwestiwn 4 (cwcers â ffliw), roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â'n cynnig. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i larwm CO gael ei osod pan gaiff cwcer â ffliw ei osod. Nid ydym yn bwriadu cynnwys cwcers nwy heb ffliw gan nad yw'r rheoliadau adeiladu yn cwmpasu cwcers heb ffliw yn gyffredinol. Mae gosod cwcer â ffliw yn waith adeiladu sydd o fewn cwmpas y rheoliadau. Mewn cartrefi llai o faint, mae'n bosibl y byddai cwcer nwy wedi'i leoli yn yr un ystafell â'r boeler. Bydd ein cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i larwm gael ei osod yn yr ystafell lle mae'r boeler wedi'i osod ac, i ryw raddau, gallai hyn liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â chwcers nwy.

3.39 Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â mynnu y cydymffurfir yn llwyr ag EN 50292:2023 fel gofyniad sylfaenol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rhai o'n cynigion diwygiedig yn cyd-fynd â rhannau o'r safon hon ac yn rhoi canllawiau defnyddiol os bydd datblygwyr/gosodwyr am fynd ymhellach na gofynion sylfaenol y rheoliadau adeiladu.

3.40 Bydd y canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol ystyried lefelau hyglywedd mewn mannau cysylltiedig cyfagos ac effaith carbon monocsid yn symud i bob rhan o'r adeilad. Dylai synwyryddion carbon monocsid gynnwys seinydd integrol.

3.41 Bydd Llywodraeth Cymru yn creu gofyniad i osod system synhwyro carbon monocsid i rybuddio meddianwyr am bresenoldeb carbon monocsid a fydd yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- Un synhwyrydd carbon monocsid ym mhob man (gan gynnwys garejis ac atigau) sy'n cynnwys offer llosgi sefydlog (gan gynnwys offer llosgi â ffliw a ddefnyddir i goginio),

- Un synhwyrydd carbon monocsid er mwyn rhoi rhybudd cynnar i lety risg uchel, hynny yw, ystafell wely neu brif ystafell gyfanheddol (e.e. ystafell fyw), lle mae ffliw yn mynd drwy'r ystafelloedd hyn.

# 4. Ystyriaethau Eraill

## Cwestiwn 5.

## Math o Larwm

**Ydych chi'n meddwl bod angen diweddaru'r arweiniad yn Nogfen Gymeradwy J (a amlinellir uchod) ar *ba fath* o larwm carbon monocsid y dylid ei osod? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth.**

### Crynodeb

4.1 Roedd 61% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen diweddaru'r math o larwm CO yn y canllawiau yn Nogfen Gymeradwy J tra roedd 12% yn anghytuno.

4.2 Cafwyd y sylwadau allweddol canlynol gan yr ymatebwyr:

4.3 Roedd y sylwadau a gafwyd yn awgrymu'r ystod lawn o ddewisiadau ar gyfer larymau batri yn unig, larymau sy'n cysylltu â'r prif gyflenwad yn unig, neu larymau batri a larymau sy'n cysylltu â'r prif gyflenwad.

4.4 Nododd rhai ymatebwyr fod y canllawiau presennol yn darparu digon o wybodaeth am y math hwn o larwm (h.y., larwm a weithredir â batri a larwm sydd wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad trydan).

4.5 Nododd sawl ymatebydd fod larymau â batris wedi'u selio yr un mor effeithiol â larymau sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan. Fodd bynnag, awgrymwyd bod batris wedi'u selio, sydd ag oes debyg, yn fwy costeffeithiol.

4.6 Argymhellodd un sefydliad o'r diwydiant y dylid newid Safon Brydeinig BS EN 50291 i Safon Ewropeaidd (CEN) EN 50291-1.

4.7 Roedd un ymatebydd yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod larymau CO rhad ar gael ac at natur annibynadwy'r larymau hyn a'r risgiau amlwg sy'n gysylltiedig â nhw. Cyfeiriwyd at y rhaglen “Fake Britain”, a ddarlledwyd gan y BBC, a dynnodd sylw at y mater hwn. https://www.katiehainestrust.com/gordon-samuel-on-bbc-fake-britain/.

4.8 Nododd corff o arolygwyr cymeradwy y byddai'n fuddiol petai'r canllawiau ar gyfer y math o larwm y dylid ei osod yn gliriach. Awgrymwyd hefyd y dylid sicrhau cysondeb â'r canllawiau eraill, sef Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021: Creu safonau cartrefi a lleoedd hardd, sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu synwyryddion carbon monocsid gwifredig gyda chyflenwad batri wrth gefn. Nododd yr un corff natur gymhleth hysbysiadau larwm a argymhellir gan y safon a'r ffaith y gallai'r defnyddiwr terfynol gael ei ddrysu gan y mathau

gwahanol o rybuddion sy'n nodi bod CO yn bresennol, bod y batri yn wan, bod y larwm yn ddiffygiol neu ei fod wedi cyrraedd diwedd ei oes.

4.9 Nododd llawer o ymatebwyr fod larymau a weithredir â batris yn gweithio'n dda a'u bod yn opsiwn fforddiadwy i lawer o bobl ac y dylai unrhyw newidiadau barhau i fod yn gymesur.

4.10 Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r gofynion sylfaenol gynnwys y safonau er mwyn i unrhyw larwm carbon monocsid fodloni'r gofynion. Gallai hyn helpu i leihau cost yswiriant ychydig os defnyddir safon ansawdd ofynnol a'i bod yn glir ac yn cael ei hysbysebu. Rydym yn cytuno y dylid pennu'r safonau ansawdd sydd i'w cyrraedd ond nid y math o larwm na'r gwneuthuriad na'r model.

4.11 Nid oedd un awdurdod lleol yn credu bod angen diweddaru'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy J am eu bod eisoes yn cyd-fynd, i raddau helaeth, â'r hyn a nodir yn Safon Brydeinig BS EN 50291-1:2018. Serch hynny, nododd yr ymatebydd fod Safon Brydeinig BS EN 50291-1:2002, sydd bellach wedi'i thynnu'n ôl, yn cael ei dyfynnu yn Nogfen Gymeradwy J ac, felly, y gallai fod yn fuddiol ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r fersiwn bresennol a, lle y bo'n bosibl, y dylai gofynion a chanllawiau gyd-fynd â'i gilydd er mwyn osgoi dryswch. Awgrymwyd y gallai gosod synwyryddion gwifredig yn unig beri problemau ar gyfer ôl-osod/amnewid offer, os nad oes cyflenwad trydan addas yno'n barod. Argymhellwyd y dylid gosod larymau yn sownd wrth yr adeilad (h.y., eu gosod yn fecanyddol) er mwyn lleihau'r risg y bydd meddianwyr yn symud y larymau. At hynny, gofyniad y dylid gosod larymau rhybuddio am ddiffyg 'diwedd oes' sy'n rhoi signal neu sydd ag uned arddangos weledol i rybuddio'r defnyddiwr bod angen gosod larymau newydd yn eu lle.

**Cwestiwn 6.**

## Lleoliad Larwm

**Ydych chi'n meddwl bod angen diweddaru'r arweiniad yn Nogfen Gymeradwy J ar ble i osod larymau carbon monocsid? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth.**

### Crynodeb

4.12 Roedd 63% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen diweddaru lleoliad larymau yn y canllawiau yn Nogfen Gymeradwy J tra roedd 15% yn anghytuno.

4.13 Cafwyd y sylwadau allweddol canlynol gan yr ymatebwyr:

4.14 Nododd rhai ymatebwyr fod y canllawiau presennol ar leoliad yn dderbyniol tra awgrymodd cryn nifer o'r ymatebwyr fod angen eu diweddaru.

4.15 Awgrymodd un sylw, os caiff atigau a llwybrau ffliwiau cysylltu wedi'u cuddio eu cynnwys, y bydd angen diweddaru'r canllawiau er mwyn adlewyrchu hyn.

4.16 Nododd un ymatebydd y gwahaniaethau rhwng EN 50292 a'r canllawiau presennol ac argymhellodd y dylid adolygu hyn yn benodol.

4.17 Mae larymau CO wedi'u gosod yn anghywir ar lefel isel mewn cartrefi, fel y nododd un ymatebydd, ac, felly, mae angen canllawiau clir yn y ddogfen gymeradwy.

4.18 Mae un ymatebydd yn nodi bod y canllawiau yn Nogfen Gymeradwy J yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn Safon Brydeinig BS EN 50292. Fodd bynnag, mae meini prawf ychwanegol yn y safon y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried i'w cynnwys mewn unrhyw ddiweddariad yn y dyfodol. Yn benodol, canllawiau ar leoliadau anaddas a nenfydau ar oleddf ac ystyried cynnwys diagramau.

**Ymateb y Llywodraeth (cwestiynau 5 a 6, y Math o Larymau a'u Lleoliad)**

4.19 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn gyffredinol yr ymatebwyr y dylai'r datblygwr gael dewis y math o larymau a osodir o hyd (cwestiwn 5) gan fod larymau a weithredir â batri yn gweithio'n dda ac yn gosteffeithiol. Ni chredir bod y ddadl o blaid pŵer o'r prif gyflenwad yn ddigon cryf i wneud y fersiwn sy'n cysylltu â'r prif gyflenwad yn ofynnol yn y ddogfen gymeradwy.

4.20 Er bod *Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021: Safonau ar gyfer creu cartrefi a mannau prydferth* yn ei gwneud yn ofynnol i synwyryddion carbon monocsid sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan ac sydd â batri wrth gefn gael eu gosod mewn cartrefi, bydd Llywodraeth Cymru ond yn ei gwneud yn ofynnol i offer a weithredir â batri gael eu gosod a bydd yn caniatáu i ddatblygwyr a pherchenogion tai ddewis a ydynt am osod offer sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan.

4.21 Mae lleoliad larymau CO (cwestiwn 6) wedi'i ystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru yn sgil yr ymatebion a gafwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau arfaethedig er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y gofynion sy'n ymwneud â gosod synwyryddion a rhoddir canllawiau ychwanegol yn y ddogfen gymeradwy. Cadarnheir bod yr holl safonau y cyfeirir atynt yn y canllawiau yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf a'u bod yn berthnasol i'r pwnc. Ystyrir manteision cynnwys diagramau ychwanegol ac fe'u darperir os ystyrir bod eu hangen.

4.22 Fodd bynnag, mae'r cynigion presennol yn debygol o ddilyn y gofynion a nodir isod. Oni nodir fel arall gan y gwneuthurwr, bydd yn ofynnol i synwyryddion carbon monocsid:

- fod wedi'u gosod a'u lleoli o leiaf 300 mm i ffwrdd o unrhyw wal, neu
- wedi'u gosod ar wal ac wedi'u lleoli o leiaf 150 mm islaw'r nenfwd ac yn uwch nag unrhyw ddrws neu ffenestr yn yr ystafell.

4.23 Dylid gosod synwyryddion carbon monocsid yn y man sy'n cynnwys y ddyfais losgi rhwng 1 m a 3 m o'r ddyfais.

4.24 Noder: os bydd y ddyfais losgi wedi'i gosod mewn lle bach, efallai na fydd yn bosibl gosod y synhwyrydd yn y man hwnnw. Dan amgylchiadau o'r fath, gellir gosod y synhwyrydd bellter priodol i ffwrdd.

4.25 Ni ddylid gosod synhwyrydd carbon monocsid:

- mewn lle amgaeedig (er enghraifft mewn cwpwrdd neu y tu ôl i len)
- lle y gall gael ei atal rhag gweithio (er enghraifft gan ddodrefn)
- yn union uwchlaw sinc
- ger drws neu ffenestr
- ger ffan echdynnu
- Ger twll aer neu agorfa awyru debyg.
- mewn ardal lle y gall y tymheredd ostwng o dan -10°C neu fod yn uwch na 40°C, oni bai ei fod wedi'i ddylunio i ymdopi â thymereddau o'r fath.
- lle y gall baw a llwch flocio'r synhwyrydd
- mewn man gwlyb neu laith
- yn agos at offer coginio.

4.26 Ceir canllawiau ychwanegol ar ble i osod synwyryddion carbon monocsid, gan gynnwys cwmpas estynedig, yn Safon Brydeinig BS EN 50292.

4.27 Ni ddylid ystyried y gall darparu systemau synhwyro carbon monocsid gymryd lle gosod offer llosgi yn gywir a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

# 5. Amcangyfrifon o'r costau

## Cwestiwn 7.

## Amcangyfrifon o'r Costau ac Asesiad o'r Effaith

**Ydych chi'n cytuno gyda'r amcangyfrifon o'r costau a'r Asesiad o'r Effaith gyffredinol? Os nad ydych, esboniwch beth fyddai cost briodol yn eich barn chi, a rhowch dystiolaeth i ddangos pam.**

### Crynodeb

5.1 Roedd 34% o'r ymatebwyr o'r farn bod yr amcangyfrifon o'r costau a'r Asesiad o'r Effaith gyffredinol yn briodol tra roedd 12% yn anghytuno.

5.2 Cafwyd y sylwadau allweddol canlynol gan yr ymatebwyr:

5.3 Roedd yr ymatebwyr yn credu bod larymau batri yn benodol yn opsiwn cost isel ac yn cyfiawnhau darpariaethau ychwanegol ar gyfer diogelwch bywyd.

5.4 Nododd sawl ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol gweld y ffigurau ar gyfer marwolaethau ac anafiadau a achosir gan CO yng Nghymru a chost gosod larymau CO ym mhob tŷ.

5.5 Awgrymodd un ymatebydd y dylai offer sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan fod yn orfodol er gwaethaf cost uwch y fersiynau sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan am eu bod yn fwy dibynadwy ac oherwydd pryderon ynghylch batris yn methu.

5.6 Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn credu nad oedd digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad manwl o'r amcangyfrifon o'r costau, gan gynnwys y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r amcangyfrifon. Fodd bynnag, o ran baich costau iechyd, awgrymodd un ymatebydd ei bod yn debygol bod tanamcangyfrifon gan fod baich iechyd CO yn anodd i'w gyfrifo oherwydd cyfyngiadau data.

5.7 Awgrymodd un ymatebydd y byddai cyfanswm cost y mesurau arfaethedig ar gyfer larymau a weithredir â batri tua £70m yn seiliedig ar yr angen i osod un synhwyrydd ym mhob eiddo. Lle y gallai synwyryddion ychwanegol fod yn ofynnol (e.e. yn yr eiddo hŷn sydd â ffliwiau drwy ystafelloedd gwely), gwnaethant awgrymu y bydd y costau'n cynyddu i tua £100m. Ni chyflwynwyd unrhyw gyfrifiadau i ategu'r amcangyfrifon hyn.

5.8 Awgrymodd un sylw nad oedd yr amcangyfrifon o'r costau yn nodi'n glir y math o larwm sy'n cael ei osod (h.y., larymau a weithredir â batri neu larymau wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan). Hefyd, honnwyd bod yr Alban wedi wynebu prinder larymau carbon monocsid pan gyflwynwyd canllawiau tebyg, ac y gellir ystyried hyn o fewn yr amcangyfrifon o ran cynnydd mewn prisiau.

5.9 Tynnodd un ymatebydd sylw ar yr effaith ar y rhai y mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cael effaith negyddol arnynt gan nodi y dylid ystyried hyn fel rhan o'r asesiad.

5.10 Awgrymodd un ymatebydd y byddai'r manteision iechyd a fyddai'n deillio o gynnwys cwcers nwy ond yn arwain at gynnydd bach iawn mewn costau ac y byddai'n disgwyl i gynnwys cwcers nwy yn y rheoliadau sicrhau mwy o fanteision iechyd nag a amcangyfrifir ar hyn o bryd.

**Ymateb y Llywodraeth (cwestiwn 7)**

5.11 Mae'r Asesiad o'r Effaith yn cyflwyno asesiad o'r effeithiau, a oedd yn gorfod bod yn un eang, sy'n seiliedig ar gostau datblygu tybiedig. Ar y sail hon, mae'r asesiad effaith yn gynrychioliad dangosol o effaith debygol y newidiadau arfaethedig.

5.12 Rydym yn ddiolchgar am y sylwadau a'r adborth, ond dylid nodi nad cynigion ôl-weithredol yw'r rhain, ac mai dim ond pan gaiff gwaith adeiladu perthnasol (e.e. gosod boeleri nwy newydd) ei wneud mewn perthynas ag annedd y byddai'r gofynion yn berthnasol.

5.13 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynigion yn gymesur a bod y pwyslais ar achub bywydau. Credir bod yr amcangyfrifon o'r costau ac effaith y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn briodol. Caiff cost cynnydd yn y gofyniad i osod larymau ychwanegol mewn mannau cysylltiedig ac ystafelloedd gwely y mae ffliwiau yn mynd drwyddynt, ei werthuso ymhellach cyn i'r newidiadau gael eu cyflwyno.

5.14 Nid oes unrhyw wybodaeth am union nifer y marwolaethau a achosir gan CO yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd ac mae a wnelo'r ffigurau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori â'r DU gyfan.

5.15 Er bod yr ystadegau'n dangos bod marwolaethau yn sgil gwenwyno gan CO yn gymharol isel, mae'r rhain yn farwolaethau y gellir eu hosgoi. Hefyd, ym marn rhai arbenigwyr meddygol, caiff diagnosis anghywir ei wneud o achosion o wenwyno gan garbon monocsid ac felly ni chânt eu cofnodi'n ddigonol, gan olygu y gallai niferoedd y marwolaethau a'r anafiadau fod yn llawer mwy. Ceir tystiolaeth glir bod larymau batri'n cynnig ateb costeffeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o boblogaeth Cymru ac na fyddant yn llethu datblygwyr yn ormodol â chostau uchel ychwanegol.

5.16 Bydd yr asesiad effaith terfynol yn ystyried y sylwadau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad a'r newidiadau i'r polisi a nodir yn yr ymateb hwn, a chaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau diwygiedig.

## Newidiadau cysylltiedig

**Cwestiwn 8.**

**Defnyddiwch y cwestiwn hwn i roi unrhyw sylwadau sydd gennych am y cynnig.**

**Crynodeb**

5.17 Rhoddodd y cwestiwn hwn gyfle i'r ymatebwyr godi unrhyw faterion i'w hystyried. Cafwyd y sylwadau allweddol canlynol gan yr ymatebwyr ar amrywiaeth o bynciau gwahanol. Nid yw pynciau sydd eisoes wedi'u hystyried yn yr ymateb hwn wedi'u hystyried ymhellach yn yr adran hon.

5.18 Awgrymodd un sylw y dylid addysgu pobl yn well am beryglon/arwyddion gwenwyno gan CO ac y dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r newidiadau.

5.19 Awgrymwyd y dylid gosod larwm ar unrhyw offer a allai gynhyrchu CO er mwyn cyd-fynd â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru.

5.20 Nododd un ymatebydd fod darparu larymau tân a synwyryddion CO2 sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan yn cynnig ymarferol ar gyfer adeiladau newydd a llety rhent. Nododd nad felly y mae yn achos eiddo preswyl preifat presennol ac argymhellodd y dylid cynnal ymgyrch i annog gosod larymau tân a synwyryddion CO2 sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan yn wirfoddol. Gyda gofyniad i osod systemau synhwyro pan werthir eiddo preswyl preifat am gyfnod o 10 mlynedd cyn ei gwneud yn orfodol i systemau o'r fath gael eu gosod ym mhob eiddo preswyl yn 2033, dyweder.

5.21 Awgrymodd un ymatebydd mai rhywbeth i'w gynghori yn unig ddylai gosod larymau CO mewn anheddau preifat fod.

5.22 Gofynnodd un ymatebydd am i bob ymdrech gael ei gwneud i gyfuno unrhyw ddarpariaethau/canllawiau a newidiwyd mewn Dogfen Gymeradwy ddiwygiedig, yn hytrach na llyfryn diwygio y mae angen ei ddarllen ochr yn ochr â'r brif ddogfen.

5.23 Amlinellodd un ymatebydd nifer o enghreifftiau lle mae pobl sy'n agored i niwed yn wynebu mwy o risg yn sgil dod i gysylltiad â CO. Darparwyd y ddolen gyfryngol ganlynol:

https://www.gov.uk/government/publications/carbon-monoxide-properties-incidentmanagement-and-toxicology/carbon-monoxide-general-information

5.24 Nododd un ymatebydd fod y cynigion yn annhebygol o gael eu mabwysiadu ar raddfa fawr mewn adeiladau presennol a'u bod yn cymryd gormod o amser, fel arfer, i gael effaith gadarnhaol. Argymhellodd y dylai larymau CO fod yn orfodol pan gaiff offer eu newid megis boeleri sy'n defnyddio tanwydd ffosil.

Awgrymwyd hefyd y bydd gosod larymau CO yn y stoc dai bresennol yn dod yn llawer mwy perthnasol.

5.25 Nododd un ymatebydd, petai larymau CO sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â gosod offer gwresogi newydd, y byddai'r gost yn rhy uchel i lawer o bobl.

**Ymateb y Llywodraeth (cwestiwn 8)**

5.26 Fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud larymau batri'n ofynnol fel ateb costeffeithiol. Bydd larymau sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan yn dal i fod yn opsiwn i'r datblygwr neu'r perchennog tŷ fel y bo'n briodol.

5.27 Mae offer nad ydynt yn rhai sefydlog yn destun deddfwriaeth sydd y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau adeiladu.

5.28 Caiff y math o larymau a'u lleoliad eu hystyried yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 5 a 6.

5.29 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried gofynion BS EN 50291 ac, er y credir ei bod yn briodol cynnwys rhai o'r gofynion ar y cam hwn, nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud y gofynion llawn yn orfodol fel gofyniad sylfaenol ar gyfer pob annedd heb dystiolaeth bellach.

5.30 Caiff y canllawiau newydd eu cyhoeddi fel dogfen gymeradwy wedi'i diweddaru yn hytrach na llyfryn ar wahân.

5.31 Mae cwmpas y rheoliadau adeiladu yn ymestyn i gynnwys anheddau newydd ac anheddau presennol lle mae gwaith cymwys yn cael ei wneud. O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i unrhyw un sydd am wneud Gwaith Adeiladu mewn adeiladau newydd neu adeiladau presennol wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Diffinnir ‘Gwaith Adeiladu’ yn Rheoliad 3 o'r Rheoliadau Adeiladu. Mae'r rheoliadau a dogfen gymeradwy Rhan J sy'n gysylltiedig â nhw yn rhoi canllawiau ar yr ardaloedd y mae'r ddeddfwriaeth yn trwyddedu ar eu cyfer ac ni ellir cynnwys ardaloedd y tu allan i'r rheoliadau fel rhan o newidiadau i'r rheoliadau hyn yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

### Cwestiwn 9.

## Effeithiau ar y Gymraeg

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai’r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

**Crynodeb**

5.32 Cafwyd y sylwadau mwyaf perthnasol canlynol gan yr ymatebwyr. Nid yw pynciau sydd eisoes wedi'u hystyried yn yr ymateb hwn na sylwadau tebyg wedi'u hystyried ymhellach yn yr adran hon

5.33 Ar y cyfan, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fydd y cynigion yn cael unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

5.34 Awgrymodd un sylw a gafwyd, petai Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei gosodwyr ei hun sy'n siarad Cymraeg, y gallent siarad Cymraeg ag amrywiaeth o bobl.

5.35 Yr ymateb i gwestiynau 9 a 10 – rhaid i gyfarwyddiadau a chanllawiau fod ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg gan wneuthurwyr. Gallai cost ychwanegol fod yn gysylltiedig ag unrhyw ofyniad pellach.

5.36 Mae'r mesurau yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar wahân i wneud yn siŵr bod yr holl ganllawiau a chyfarwyddiadau gweithredu ar gael yn Gymraeg yn ogystal â'r holl ieithoedd rhyngwladol arferol.

5.37 Cafodd mater eithrio mannau â llif aer uwch ei ystyried yng nghwestiynau 2 i 4.

5.38 Argymhellodd un ymatebydd y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd gan gynnwys dogfen “hawdd ei deall” i breswylwyr, megis unigolion sy'n byw mewn llety â chymorth neu unigolion ag anawsterau dysgu neu anawsterau llythrennedd.

**Cwestiwn 10.**

**Effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.**

**Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Crynodeb**

5.39 Cafwyd y sylwadau mwyaf perthnasol canlynol gan yr ymatebwyr. Nid yw pynciau sydd eisoes wedi'u hystyried yn yr ymateb hwn na sylwadau tebyg wedi'u hystyried ymhellach yn yr adran hon

5.40 Ar y cyfan, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fydd y cynigion yn cael

unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

5.41 Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid defnyddio gosodwyr sy'n siarad Cymraeg a sicrhau bod yr holl ganllawiau ar gael yn Gymraeg.

5.42 Yr ymateb i gwestiynau 9 a 10 – rhaid i gyfarwyddiadau a chanllawiau fod ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg gan wneuthurwyr. Gallai cost ychwanegol fod yn gysylltiedig ag unrhyw ofyniad pellach.

5.43 Awgrymodd un ymatebydd y dylid cyfieithu unrhyw ddeddfwriaeth i ieithoedd sy'n cael eu siarad gan gymunedau ethnig sy'n byw yng Nghymru.

**Ymateb y Llywodraeth (cwestiynau 9 a 10)**

5.44 Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru a'i nod yw creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Er mwyn helpu i wneud hyn, mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion cyfreithiol gyfrwymol sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Ystyrir pob dogfen Rheoliadau Adeiladu yn erbyn y safonau ac fe'u cyhoeddir yn unol â hynny.

# 6. Y Camau Nesaf

6.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriadau hyn.
Caiff Dogfen Gymeradwy J (Dyfeisiau sy'n cynhyrchu gwres) ei chwblhau yn unol ag ymatebion y Llywodraeth i bob adran/cwestiwn. Rydym yn amcangyfrif y caiff y rheoliadau diwygio a'r canllawiau cysylltiedig eu cyhoeddi ar ddechrau 2024, gan ddod i rym chwe mis ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.